RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL: 114/2023
DYDDIAD CYHOEDDI: 07/12/2023

# Profiadau plant o gymryd rhan mewn gweithrediadau preifat yn y llysoedd teulu

**Cipolwg**

**Dulliau:** Ansoddol; cyfweliadau lled-strwythuredig â phlant a phobl ifanc (n=11); grwpiau ffocws â Chynghorwyr Llys Teulu sy'n gweithio o dan y model Braenaru (n=10) yn Cafcass Cymru.

**Prif ganfyddiadau:**

- Yn gyffredinol, roedd y plant yn teimlo bod y Cynghorwyr Llys Teulu yn gwrando arnynt ac yn eu cefnogi'n dda.
- Roedd y plant yn deall rôl barnwyr/y llys teulu, ond nid pam roedd Cafcass Cymru yn siarad â nhw. Roedd teimladau o ddryswch yn aml yn parhau ar ôl y cyfarfod.
- Roedd yn beth prin i'r plant ddisgrifio cael dewis o ran sut i ymgysylltu.
- Cymysg fu profiadau'r plant o ran pa mor hir oedd y cyfarfod Roedd rhai yn gadarnhaol, i eraill roedd yn annisgwyl o fyr.
- Roedd pob un o'r plant wedi cael gwybod am benderfyniad y llys gan riant. Roedd y rhan fwyaf ohonynt yn teimlo mai hynny oedd orau. Roedd rhai am gael gwybod gan drydydd parti niwtral.
- Roedd lefelau isel o ymwybyddiaeth o'r ffyrdd amgen o gymryd rhan (e.e., ysgrifennu llythyr/cyfarfod â'r barnwr). Awgrymodd yr adborth fod y rhain yn codi braw ar y plant.
- Roedd y Cynghorwyr Llys Teulu yn teimlo bod lle blaenllaw i safbwyntiau'r plant o dan y model ac roedd consensws bod y llysoedd yn eu cymryd o ddifrif wrth wneud penderfyniadau.
- Awgrymodd y Cynghorwyr Llys Teulu y gallai clywed safbwyntiau'r plant yn gynharach leihau straen, helpu i ddatrys problemau a chymell rhieni i newid eu hymddygiad yn gadarnnhaol.
- Yr her allweddol oedd prinder amser oherwydd y terfynau amser chwe wythnos anhyblyg a dull gweithredu 'un ateb i bawb' Mae'n bosibl bod hyn yn arwain at gyfarfodydd 'brysiog' â phlant.
- Dadleuodd y Cynghorwyr Llys Teulu o blaid hyblygrwydd: ar gyfer rhai achosion, teimlwyd y byddai'r model Braenaru yn briodol ond gallai achosion llai cymhleth gael eu datrys drwy weithredu yn debyg i'r model busnes fel arfer.

**Argymhellion:**

1. Dylid sicrhau bod dewisiadau yn rhaeadru i lawr i blant.
2. Dylid adolygu a gwella'r broses o rannu gwybodaeth â phlant.
3. Dylid bod yn hyblyg er mwyn rhoi mwy o lais i blant.
4. Dylid ystyried sut y gallai terfynau amser anhyblyg effeithio'n andwyol ar gymryd rhan.

## Crynodeb

### 1. Cyflwyniad

1.1 Comisiynwyd yr ymchwil hon gan Cafcass Cymru i ystyried profiadau o gymryd rhan i blant a oedd wedi gweithio o dan fodel newydd sy'n cael ei dreialu yn y llysoedd teulu yn y gogledd, sef y prosiect 'Braenaru'.

1.2 Ei nod yw gwella profiadau a chanlyniadau i deuluoedd sy'n rhan o weithrediadau preifat. O dan weithrediadau cyfraith breifat mae rhiant sydd wedi gwahanu yn gofyn i'r llys teulu

benderfynu ar drefniadau ar gyfer ei blant/phlant, megis gyda phwy y bydd y plentyn yn byw a gyda phwy y bydd yn treulio amser.

1.3 Nod yr ymchwil hon yw deall effaith y prosiect Braenaru ar gymryd rhan a nodi beth y dylid ei wneud, os o gwbl, i roi mwy o lais i blant mewn gweithrediadau cyfraith breifat.

1.4 Pan fydd rhieni yn gwahanu, gall hyn achosi straen fawr i blant ac mae prosesau'r llys yn aml yn gwneud y sefyllfa yn waeth. Mae plant sy'n rhan o weithrediadau preifat yn aml yn teimlo nad ydynt yn cael fawr ddim cyfle i leisio barn ar benderfyniadau a wneir yn eu cylch ac, yn aml, mai safbwyntiau'r rhieni sy'n drech. Er gwaethaf hyn, mae'r ymchwil yn dangos bod plant yn chwarae rhan weithredol pan fydd rhieni yn gwahanu, eu bod am gael gwybod beth sy'n digwydd a'u bod am i eraill gymryd eu barn o ddifrif.

1.5 Mae'r prosiect Braenaru yn anelu at gynnig datrysiad cyflymach a mwy effeithiol i deuluoedd a gwella ymatebion i gam-drin domestig. Fel rhan o hyn, mae'r cynllun peilot yn rhoi mwy o fynediad a hyblygrwydd i Gynghorwyr Llys Teulu Cafcass Cymru i weithio gyda phlant fel y gall eu safbwyntiau gael eu cynnwys ym mhrosesau gwneud penderfyniadau'r llysoedd ar gam cynharach.

## 2. Methodoleg

2.1 Defnyddiodd yr astudiaeth ansoddol hon grwpiau ffocws ar-lein â Chynghorwyr Llys Teulu (n=10) a chyfweliadau lled-strwythuredig ar-lein â phlant a phobl ifanc (n=11). Defnyddiwyd cyfweliadau a grwpiau ffocws am eu bod yn tueddu i gynhyrchu data ansoddol cyfoethog a manwl a hefyd roi cyfle i gyfranogwyr rannu eu profiadau yn eu geiriau eu hunain.

2.2 Nod y grwpiau ffocws oedd deall sut roedd y Cynghorwyr Llys Teulu Cafcass Cymru sydd wedi cael profiad o weithio o dan y Model Braenaru yn teimlo bod y model yn effeithio ar gymryd rhan, sut roedd gweithwyr proffesiynol yn cynnwys plant yn eu hymarfer eu hunain a beth y gellid ei wella ynglŷn â'r model mewn perthynas â chymryd rhan yn eu tyb nhw. Roedd y cyfweliadau wedi'u hanelu at ddeall i ba raddau roedd plant a oedd wedi siarad â Cafcass Cymru yn ystod gweithrediadau yn teimlo eu bod yn cael gwybodaeth dda, eu bod yn cael eu cefnogi a bod eraill yn gwrando arnynt.

2.3 Ar y dechrau, cafodd plant a phobl ifanc eu samplu'n fwriadus yn seiliedig ar feini prawf diddordeb (e.e. math o orchymyn, profiad o weithrediadau blaenorol) ond, yn y pen draw, cysylltwyd â rhieni pob plentyn cymwys drwy e-bost ac fe'u gwahoddwyd i gymryd rhan.

2.4 Dadansoddwyd y data o'r grwpiau ffocws a'r cyfweliadau drwy ddefnyddio dadansoddi thematig anwythol i ddatblygu dirnadaethau ansoddol ac argymhellion ar gyfer ymarfer.

## 3. Prif ganfyddiadau

### Cyfweliadau â phlant a phobl ifanc

3.1 Roedd y plant a gyfwelwyd yn amrywio o wyth oed i 17 oed (yr oedran canolrifol oedd 12 oed). Roedd saith o'r plant yn y sampl yn fechgyn ac roedd tri wedi bod yn destun gweithrediadau blaenorol yn y llys teulu. Roedd yr achosion wedi para rhwng chwe wythnos a 39 wythnos, o dderbyn y cais i'r llys ar y cychwyn i gau'r achos (y cyfartaledd oedd 17 wythnos). Roedd y 11 o gyfweliadau â'r plant yn ymwneud â chyfarfodydd â saith Cynghorydd Llys Teulu gwahanol ac wyth achos gwahanol. Cyfarfu saith â Cafcass Cymru wyneb yn wyneb. O'r cyfarfodydd hyn, roedd tri yn yr ysgol ac roedd pedwar yn y swyddfa. O'r rhai a gyfarfu drwy ddulliau rhithwir, roedd tri dros y ffôn ac roedd un drwy alwad fideo.

3.2 Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd y plant yn teimlo bod eu Cynghorydd Llys Teulu yn gwrando arnynt ac yn eu cefnogi'n dda. Gwnaethant ddisgrifio'n fanwl sut roeddent yn gwybod bod eu gweithiwr yn gwrando arnynt ac roeddent yn teimlo eu bod yn gallu bod yn agored ac yn onest ynglŷn â'u safbwyntiau.

3.3 Fel arfer, roedd y plant yn dweud eu bod yn nerfus cyn cyfarfod â'r Cynghorydd Llys Teulu. Yn aml, nid oeddent yn gwybod beth i'w ddisgwyl ac nid oeddent yn deall gyda phwy roeddent yn cyfarfod. Roedd rhai yn poeni am y math o gwestiynau a fyddai'n cael eu gofyn. Roedd llawer o'r plant yn teimlo rhyddhad unwaith eu bod wedi dechrau siarad â'r Cynghorydd Llys Teulu. Roedd y plant hyn yn aml yn gwerthfawrogi'r cyfle i siarad â rhywun gwahanol am y sefyllfa gartref. Fodd bynnag, dywedodd rhai plant eu bod yn teimlo pryder ac ansicrwydd a oedd yn parhau ar ôl y cyfarfod.

3.4 Er bod y rhan fwyaf o'r plant yn deall rolau Cafcass Cymru, y Cynghorydd y Llys Teulu a'r barnwr, nododd llawer o hyd eu bod yn teimlo dryswch ynglŷn â'r sefyllfa, pam roeddent yn siarad â Cafcass Cymru a beth fyddai'n digwydd nesaf. Ar gyfer o leiaf hanner y sampl, nid oedd y fath deimladau o ddryswch yn cael eu lleddfu o reidrwydd gan y cyfarfod â'r Cynghorydd Llys Teulu. Nid y plant iau yn unig oedd yn teimlo dryswch, fel y gellid ei ddisgwyl. Dywedodd plant yn eu harddegau hefyd nad oeddent yn deall pam roedd gofyn iddynt siarad â Chynghorydd Llys Teulu.

3.5 Roedd yn beth prin i'r plant ddisgrifio cael dewis o ran sut, pryd a ble i ymgysylltu â Cafcass Cymru. Ymddangosai mai'r rhieni oedd yn cael eu hysbysu am y dewisiadau hyn yn ôl pob tebyg, a nhw wedyn a oedd yn penderfynu beth fyddai'n fwyaf addas i'w plentyn ar y cyfan. Mewn rhai achosion, roedd hyn wedi gweithio'n dda i'r plant, ond roedd gan eraill farn gref ynglŷn â sut roedd diffyg dewis o ran lleoliad/dull ymgysylltu wedi effeithio ar eu cyfle i ddweud eu dweud.

3.6 Cymysg fu profiadau'r plant o ran pa mor hir oedd y cyfarfod a'r Cynghorydd Llys Teulu. I rai plant, roedd hyd y cyfarfod yn teimlo'n iawn, ac roeddent wedi cael digon o amser i ddweud popeth roeddent am ei ddweud. Roedd eraill yn synnu at ba mor fyr oedd y rhyngweithio â Cafcass Cymru ac roeddent yn disgwyl cael eu holi mwy am eu barn. Roedd rhai o'r plant hyn yn teimlo bod natur fyr iawn y rhyngweithio wedi eu hatal rhag mynegi eu barn.

3.7 Nid oedd y plant yn ymwybodol iawn ychwaith o'r ffyrdd amgen o gymryd rhan mewn prosesau cyfranogol. Dim ond un plentyn a nododd ei fod wedi cael cynnig i fynd i'r llys i fynegi ei farn neu gymryd rhan mewn unrhyw ffyrdd amgen/ychwanegol. Gwrthododd y plentyn hwn y cynnig am ei fod yn teimlo gormod o fraw wrth feddwl am fynd i'r llys ond hoffai fod wedi cael cyfleoedd eraill i gyfathrebu â'r barnwr.

3.8 Cafodd y rhan fwyaf o'r plant wybod am ganlyniad y gweithrediadau gan riant/y ddau riant. Roedd y rhan fwyaf o'r plant yn teimlo mai dyna'r ffordd orau ond dywedodd plant hŷn roedd eu rhieni yn anghyd-weld y byddai wedi bod yn well ganddynt gael gwybod am y canlyniad gan berson niwtral y gallent ymddiried ynddo/ynddi.

3.9 Yn ystod y cyfweliadau codwyd rhai ôl-effeithiau posibl a allai godi ar ôl cymryd rhan a chael gwybod. Roedd y rhain yn cynnwys risgiau sy'n gysylltiedig ag ‘ochri gydag un rhiant, baich cefnogi brodyr/chwiorydd iau drwy'r broses, y risg y bydd y plant yn beio eu hunain os nad yw canlyniad y gweithrediadau yn union ag roedd y plentyn yn ei obeithio, a'r potensial y byddai cael gwybod am broses y llys (e.e. methiant rhiant i fod yn bresennol) yn achosi mwy o drallod. Er enghraifft, roedd yn peri loes i rai plant gael gwybod nad oedd rhiant wedi mynd i'r llys ac roeddent yn dehongli hyn fel nad oedd y rhiant yn poeni amdanynt. Yn yr un modd, os oedd y llys wedi gorchymyn i riant wneud rhywbeth penodol i gadw mewn

cysylltiad ac yna nad oedd wedi cymryd y camau hynny, ymddangosai fod hynny'n gwneud iddynt deimlo mwy o rwystredigaeth a siom.

**Grwpiau ffocws â Chynghorwyr Llys Teulu**

3.10 Roedd pob un o'r Cynghorwyr Llys Teulu (n=10) wedi cael profiad o achosion Braenaru. Roedd hanner y sampl (n=5) wedi cael profiad o weithio o dan y model busnes fel arfer (Rhaglenni Trefniadau Plentyn) a'r model Braenaru, ac roedd yr hanner arall wedi gweithio ar achosion Braenaru yn unig.

3.11 Roedd y Cynghorwyr Llys Teulu yn teimlo bod y model Braenaru yn rhoi lle blaenllaw i safbwyntiau'r plant, ac yn rhoi mwy o ystyriaeth, ac ystyriaeth fanylach, iddynt yn gynharach, a bod y llysoedd yn cymryd eu safbwyntiau o ddifrif. Roedd yn amlwg bod y Cynghorwyr Llys Teulu yn teimlo bod y cyfle i ymgysylltu â phlant yn gynharach yn ystod y broses yn ychwanegu cryn werth at yr argymhellion roeddent yn gallu eu gwneud, ac felly ansawdd y penderfyniadau a wneir gan y llys.

3.12 Roedd y Cynghorwyr Llys Teulu yn teimlo bod y model yn cynnig cyfle i gynrychioli lleisiau plant yn uniongyrchol, lle roeddent yn awyddus i ymgysylltu â Cafcass Cymru, ac i gefnogi cyfranogiad anuniongyrchol lle nad oedd plant yn dymuno mynegi eu barn yn uniongyrchol neu lle nad oeddent yn teimlo y gallent wneud hynny.

3.13 Mae'n ymddangos bod cynnwys plant ar gam cynharach hefyd yn arwain at fanteision posibl y tu hwnt i gymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau. Roedd y Cynghorwyr Llys Teulu yn teimlo y gallai leihau'r straen i blant a rhieni drwy eu galluogi i ymyrryd cyn bod cyfle i ragor o elyniaeth ddatblygu rhwng rhieni. Soniodd y Cynghorwyr Llys Teulu hefyd am ddefnyddio safbwyntiau plant i gymell rhieni i newid eu hymddygiad yn gadarnhaol. Gallai'r ymyriad cynharach hwn roi cyfle i rieni ddatrys unrhyw wrthdaro yn gynt, gan leihau'r effaith ar eu plant.

3.14 Mewn gwrthgyferbyniad â'r hyn a ddywedodd rhai plant, roedd rhai Cynghorwyr Llys Teulu yn teimlo mai un o fanteision ymgysylltu'n gynharach oedd eu bod yn gallu egluro'r sefyllfa i blant a allai deimlo dryswch ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd yn eu teulu.

3.15 Yr her allweddol a nodwyd gan y Cynghorwyr Llys Teulu o ran hyrwyddo cymryd rhan o dan y model Braenaru oedd prinder amser oherwydd anhyblygrwydd y terfynau amser a gyflwynwyd gan y model Braenaru a'r dull gweithredu ‘un ateb i bawb’. Ymddangosai y gallai'r cyfyngiadau amser hyn arwain at gyfleoedd ‘brysiog’ i ymgysylltu â phlant. Roedd cyffelybiaeth amlwg rhwng y cyfyngiadau amser a ddisgrifwyd gan y Cynghorwyr Llys Teulu a phrofiadau rhai plant o ryngweithio â Cafcass Cymru a oedd yn fyrrach, ar fwy o frys ac yn llai manwl na'r hyn roeddent wedi'i ddisgwyl.

3.16 Roedd y Cynghorwyr Llys Teulu o blaid terfynau amser byrrach ar gyfer gweithrediadau yn gyffredinol, gan ddadlau y byddent yn well i deuluoedd. Fodd bynnag, gwnaethant awgrymu bod angen mwy o ‘frysbennu’ o ran achosion, a hynny'n seiliedig ar ba mor gymhleth oeddent, gyda mathau gwahanol o derfynau amser yn cael eu pennu ar gyfer achosion gwahanol a, thrwy hynny, lefelau gwahanol o ymwneud â phlant. Roedd y Cynghorwyr Llys Teulu yn teimlo'n gryf, mewn rhai achosion, y byddai prosesau cyfranogol a newidiadau eraill a gyflwynir gan y model Braenaru yn hollol briodol ac i'w groesawu'n fawr. Mewn sefyllfaoedd llai cymhleth, roeddent yn teimlo mai'r ffordd fwyaf effeithiol o ddatrys achosion i deuluoedd fyddai drwy weithredu yn debyg i'r model busnes fel arfer.

## 4. Casgliadau

4.1 Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu, drwy ymgysylltu'n gynharach ac yn llawnach â phlant, fod y model Braenaru yn ddatblygiad addawol. Ymddengys y gallai roi mwy o lais i blant mewn gweithrediadau preifat a gwella'r broses o gymryd rhan yn fwy cyffredinol.

4.2 Fodd bynnag, efallai nad yw'n syndod bod cyfarfodydd â Chynghorwyr Llys Teulu weithiau'n fyrrach na'r disgwyl i blant o ystyried y terfynau amser tynn y mae Cynghorwyr Llys Teulu yn gweithredu oddi mewn iddynt. Nid oedd y Cynghorwyr Llys Teulu bob amser yn teimlo bod ganddynt ddigon o amser i wneud rhai o'r pethau y dywedodd y plant y byddent yn gwella eu profiad o gymryd rhan mewn gweithrediadau (er enghraifft ymweliadau hwy neu fwy nag un ymweliad). Er bod y model yn cynnig mwy o hyblygrwydd i Gynghorwyr Llys Teulu o ran pryd a sut i ymgysylltu â phlant, oni bai bod mwy o hyblygrwydd ynglŷn â'r terfynau amser ar gyfer paratoi Adroddiadau ar yr Effaith ar y Plentyn, mae diffyg amser yn achosi'r risg o leihau potensial y model Braenaru i wella profiadau o gymryd rhan mewn gweithrediadau.

## 5. Argymhellion

5.1 Dylid sicrhau bod dewisiadau yn rhaeadru i lawr i blant: dylid sicrhau bod plant a phobl ifanc yn chwarae rhan weithredol wrth benderfynu a ddylid ymgysylltu â Cafcass Cymru, sut, pryd a ble. Gall hyn olygu herio rhieni i gynnig dewisiadau i'w plant, yn hytrach na gwneud penderfyniadau ar eu rhan.

5.2 Dylid adolygu a gwella'r broses o rannu gwybodaeth â phlant: er mwyn lleihau unrhyw ddryswch a phryder, dylid rhoi gwybodaeth i blant am yr hyn y mae siarad â Cafcass Cymru yn ei olygu cyn cyfarfod â nhw. Mae'r ymchwil hon yn awgrymu bod gwybodaeth benodol am y Cynghorydd Llys Teulu y bydd y plant yn cyfarfod ag ef/hi ac enghreifftiau o'r cwestiynau y bydd yn eu gofyn yn allweddol. Drwy adolygu'r dulliau a ddefnyddir i gyfathrebu â phlant cyn cyfarfod efallai y bydd hyn yn hwyluso mwy o gysylltiad uniongyrchol a phenderfyniadau gweithredol gan blant.

5.3 Dylid bod yn hyblyg er mwyn rhoi mwy o lais i blant: Mae'r model Braenaru yn cynnig dull mwy hyblyg o ymgysylltu â phlant o ran terfynau amser, ond dylai ymarferwyr gael eu grymuso i fabwysiadu dull hyblyg yn fwy cyffredinol er mwyn annog plant i gymryd rhan. Er enghraifft, amlygwyd dwy ffordd y gallai'r plant yn yr astudiaeth hon fod wedi cymryd rhan lawnach mewn gweithrediadau sef bod yn agored i gynnig mwy nag un ymweliad/ymweliadau ymgyfarwyddo i blant, ni waeth beth fo'u hoedran, neu gynnig cyfle i blant addasu dulliau amgen o gymryd rhan.

5.4 Dylid ystyried sut y gallai terfynau amser anhyblyg effeithio'n andwyol ar gymryd rhan: bydd datrys problemau gyda therfynau amser yn allweddol i'r model Braenaru yn y dyfodol. Dylai arweinwyr systemau a'r farnwriaeth ystyried sut y gellid gwneud terfynau amser tynn yn fwy hyblyg. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod cyfarfodydd â phlant yn rhoi cyfle iddynt fynegi eu barn yn llawn. Dylai hyn gynnwys ystyried sut y gellir gweithio ar achosion sy'n amrywio o ran cymhlethdod mewn ffordd amserol ac effeithlon sy'n rhoi cyfle i blant leisio eu barn. Drwy ddeall sut y mae ymwneud plant ar gam cynnar yn dylanwadu ar ddatrys gwrthdaro rhwng rhieni ac yn cyfrannu at benderfyniadau amserol ac effeithiol i deuluoedd bydd hynny'n helpu Cafcass Cymru i bennu'r ffordd y mae'n ymdrin â chymryd rhan a mireinio'r model ymhellach.

Awduron yr Adroddiad: Jones, Rebecca

Adroddiad Ymchwil Llawn: Jones, Rebecca; (2023). *Profiadau plant o gymryd rhan mewn gweithrediadau preifat yn y llysoedd teulu.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru, GSR adroddiad rhif 114/2023.
Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/profiadau-plant-phobl-ifanc-o-gymryd-rhan-mewn-achosion-preifat-yn-y-llysoedd-teulu
Barn yr ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barn Llywodraeth Cymru o reidrwydd.
I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
Laura Entwistle
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: ymchwil.iechydagwasanaethaucymdeithasol@llyw.cymru
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83577-166-2